# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## EIN(2) 08-06 (p5)

### Dyddiad: 18fed Hydref 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Ymgynghoriad strategaeth e-Gymru – "Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ar ddefnyddio grym TGCh yng Nghymru"

#### Pwrpas

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y ddogfen ymgynghori gyfredol "Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ar ddefnyddio grym TGCh yng Nghymru" sy'n rhoi gwedd newydd ar Weledigaeth a Strategaeth TGCh ar gyfer Cymru. Yn y papur ceir crynodeb o bwyntiau allweddol y Strategaeth a gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor ar y ddogfen ac, yn neilltuol, ar y cwestiynau penodol a holir yn y ddogfen. Rhoddwyd cychwyn ar 'Tuag at e-Gymru' gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau yn rhinwedd ei swydd fel e-Weinidiog.

#### Crynodeb

2. Mae dogfen ymgynghori "Tuag at e-Gymru" yn cyfleu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud defnydd effeithiol o TGCh yng ngoleuni'r ffordd y mae TGCh a'r seilwaith cysylltiedig a'r defnydd a wneir ohonynt yn datblygu'n gyflymach o hyd ar raddfa fyd-eang. Gall y seilwaith hwn fod yn ddiriaethol fel seilwaith telathrebu neu'n fwy haniaethol fel addysg, sgiliau a hyfforddiant. Mae hyn yn codi nifer o gwestiynau (gweler Atodiad 1 o'r papur Pwyllgor).

3. Cyflwynir y papur hwn i'r Pwyllgor, ar gais y Pwyllgor, i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael cyfle i gyfrannu at y broses ymgynghori.

4. Cyhoeddwyd "Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ar ddefnyddio grym TGCh yng Nghymru" ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 14eg Gorffennaf 2006 a'r dyddiad cau yw 31ain Hydref 2006.

#### Y Cefndir

5. Cyhoeddwyd Cymru Ar-lein – Online for a Better Wales gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001 i fod yn weledigaeth strategol ar gyfer datblygu TGCh ledled Cymru. Yn gefnlen i'r gwaith o baratoi'r Strategaeth hon roedd Agenda Lisbon a Chynllun Gweithredu e-Ewrop. Erbyn hyn, diweddarwyd Cynllun Gweithredu e-Ewrop yng ngoleuni gweledigaeth i2010 ar gyfer datblygiadau TGCh ledled Ewrop ac felly roedd yn briodol ailwampio Strategaeth Cymru Ar-lein i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf. Lluniwyd "Tuag at e-Gymru" mewn ymateb i hynny.

6. Mae "Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ar ddefnyddio grym TGCh yng Nghymru" yn cyflwyno

ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i lywio'r defnydd effeithiol o TGCh fel ffordd o elwa'n economaidd, llwyddo, gwella gwasanaethau cyhoeddus a hybu cynhwysiad cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n gwahodd rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru a thu hwnt i helpu i sicrhau bod Cymru'n talu sylw llawn a phriodol i TGCh yn ystod y broses o ddatblygu polisïau ac ailwampio prosesau busnes er mwyn sicrhau y gall Cymru ddatblygu economi bywiog, amrywiol ac arloesol sy'n ffynnu trwy fod yn gystadleuol ac yn gynhwysol.

7. Datblygwyd y ddogfen ymgynghori yng nghyd-destun amcanion polisïau cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys Cymru: Gwlad Well, Cynllun Gofodol Cymru, Cymru: Economi yn Ffynnu a Creu'r Cysylltiadau.

8. Dosbarthwyd copïau o'r ddogfen ymgynghori yn eang ymhlith rhanddeiliaid. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn: http://new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/busandeconcurrcons/ewalesstrategy?lang=cy

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ffurf electronig ond mae copïau papur o'r strategaeth ar gael os gofynnwch amdanynt. Bu'r ymateb cychwynnol yn adeiladol ac yn gadarnhaol. Mae holl Aelodau'r Cynulliad wedi cael copi o'r ddogfen ymgynghori.

9. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi ac fe'u defnyddir yn sylfaen ar gyfer Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun hwn yn hollgwmpasog a bydd yn ymwneud â holl gyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran datblygu economi ffyniannus, cefnogi addysg, hwyluso mynediad at wahanol wasanaethau cyhoeddus a gwella cynhwysiad cymdeithasol ac ansawdd bywyd pobl Cymru. Bydd angen i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo'r Cynllun cyn ei gyhoeddi yn 2007.

## Goblygiadau Ariannol

10. Mae'r ddogfen ymgynghori'n costio £7,500 i'w chynhyrchu a daeth yr arian o gyllideb gyhoeddedig DEIN 06-07. Bydd y Cynllun Gweithredu a fydd yn deillio ohono'n cyflwyno nifer o gamau penodol y bydd angen eu hasesu a chanfod arian ar eu cyfer cyn y dechreuir eu rhoi ar waith nac ymrwymo iddynt.

## Themâu Trawsbynciol

11. Mae dull Llywodraeth Cynulliad Cymru o ymdrin â TGCh yn torri ar draws blaenoriaethau'r holl bortffolios gan edrych ar y defnydd effeithiol o TGCh fel ffordd allweddol o wneud busnes, gan gyfoethogi ei pholisïau a'i strategaethau ar berfformiad economaidd a diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

12. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd cyfleoedd cyfartal wrth ddatblygu'r camau a fydd yn deillio o'r ymgynghoriad.

## Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

13. Ystyried yr adroddiad hwn a chynnig sylwadau ar "Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ar ddefnyddio grym TGCh yng Nghymru". Mae’r rhestr lawn o gwestiynau ynghlwm yn Atodiad 1.

## Andrew Davies AC
## Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Atodiad 1

### Themâu gwaelodol strategaeth e-Gymru

Mae’r strategaeth yn nodi pedair thema allweddol y gall pobl Cymru elwa os defnyddir TGCh yn effeithiol ynddynt. Y themâu allweddol yw:

### Gwybodaeth

Mae angen hyrwyddo dealltwriaeth gadarn o ddatblygiadau TGCh a hyder yn y manteision a ddaw ohonynt.

Mae’r strategaeth hon yn awyddus i weld camau’n cael eu cymryd i sicrhau bod:

- ffyrdd effeithiol o gipio a mynegi gwybodaeth am TGCh ar waith, a all ddylanwadu ar brosesau gwneud polisïau a phenderfyniadau ac ar arfer
- dealltwriaeth y cyhoedd o’r manteision a’r cyfleoedd trwy TGCh yn eang ac yn gadarn
- cyngor a gwybodaeth briodol am sut i ddefnyddio TGCh yn ddiogel yn gyson, yn gyfoes ac yn hygyrch i bawb
- lle y mae TGCh yn cael ei defnyddio yn llwyddiannus yng Nghymru, ei bod yn sicrhau proffil a dylanwad priodol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- gwybodaeth o TGCh yn ategu gweithredu i hyrwyddo cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a dwyieithrwydd

### Capasiti

Mae’n rhaid i ni sicrhau bod gan fusnesau, gwasanaethau cyhoeddus a phobl yng Nghymru y capasiti i fanteisio hyd yr eithaf ar TGCh.

Mae’r strategaeth hon yn awyddus i weld camau’n cael eu cymryd i sicrhau bod:

- capasiti TGCh yn elfen ganolog o’r holl waith cynllunio a chyflawni polisi
- fframwaith e-strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud cyfraniad pwysig at ‘Creu’r Cysylltiadau
- polisïau TGCh i wella proffil a pherfformiad economi Cymru yn gyson ag arfer arloesol ac arfer gorau yn rhyngwladol

- gan ddinasyddion y sgiliau a’r hyder i ddefnyddio TGCh ble, pryd a sut y dewisant

## Arloesi

Trwy ddefnyddio syniadau newydd mewn ffordd lwyddiannus, mae arloesi’n ffactor allweddol sy’n ysgogi cynhyrchiant, yn sicrhau mantais gystadleuol ac yn hyrwyddo twf cynaliadwy.

Mae’r strategaeth hon yn awyddus i weld camau’n cael eu cymryd i sicrhau

- bod arloesi ym maes TGCh yn nodwedd amlwg ar berfformiad economaidd Cymru
- y manteisir ar gyfleoedd ar gyfer arloesi ym maes TGCh yn y sector cyhoeddus i wella perfformiad economaidd

## Seilwaith

Mae mynediad fforddiadwy a hollbresennol i uwch rwydweithiau cyfathrebu a rhwydweithiau cyfathrebu agored yn hanfodol bwysig i gystadleurwydd a chynhwysiant.

Mae’r strategaeth yn awyddus i weld camau’n cael eu cymryd i sicrhau:

- Bod gan bobl a busnesau Cymru fynediad i uwch rwydwaith seilwaith a rhwydwaith seilwaith agored sy’n eu cynnal sut bynnag a phryd bynnag y dewisant a fydd yn arwain at gymdeithas sydd wedi’i rhwydweithio ym mhob man yng Nghymru.
- Yr ystyrir bod Cymru yn fainc arbrofi ym maes TGCh lle y caiff cynhyrchion a gwasanaethau newydd eu creu a’u mireinio a fydd yn arwain at greu twf brodorol a chyfleoedd allforio.
- Yr ystyrir bod Cymru yn wlad sy’n rhagori ym mhob maes technoleg.
- Bod gan Gymru seilwaith sy’n ceisio rhagweld datblygiadau yn y dyfodol ac yn cymryd camau i leihau effeithiau negyddol posibl ac sy’n gallu ymateb i ddatblygiadau technolegol.

## Cwestiynau sy’n codi yn yr ymgynghoriad

Mae’r ymgynghoriad yn codi nifer o gwestiynau sy'n seiliedig ar themâu allweddol y strategaeth.

## Gwybodaeth

Paragraff 6.17

- Ydych chi’n cytuno y gallai arsyllfa e-Gymru ychwanegu gwerth at weithgarwch cipio a lledaenu gwybodaeth TGCh yng Nghymru?
- Sut y gellid ei strwythuro i sicrhau ei fod yn ddichonadwy ac yn effeithiol ac i sicrhau ansawdd?
- Pa ddulliau sy’n bodoli eisoes ar gyfer cipio a rhannu gwybodaeth am TGCh y dylid eu hystyried wrth astudio dichonoldeb y cysyniad o arsyllfa?
- Pa ddulliau eraill o gipio a rhannu gwybodaeth am TGCh y dylid ymchwilio iddynt?

Paragraff 6.21

- A ydych yn credu bod grwpiau penodol o ddinasyddion yng Nghymru nas cwmpesir gan fentrau sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo dealltwriaeth a hyder o ran TGCh?
- Yn eich barn chi pa ddulliau a fu fwyaf effeithiol o ran cyrraedd nifer fawr o bobl? Beth a'i gwnaeth yn effeithiol?

Paragraff 6.23

- Pa gamau ychwanegol y gallai fod angen eu cymryd i sicrhau bod cyngor a gwybodaeth gadarn yn cyrraedd pob dinesydd?
- Pa gyfryngau a allai fod fwyaf effeithiol o ran cyflawni a chynnal y nod uchod?

Paragraff 6.25

- A allem wneud mwy i dynnu sylw cynulleidfa ryngwladol at y defnydd
- y mae Cymru yn ei wneud o TGCh? Beth gallem ei wneud?
- Pa fath o enghreifftiau y gellid eu cipio?
- A ydych yn credu y gallai fod manteision yn gysylltiedig â chael parth '.Cymru'?

Paragraff 6.30

- Pa ffynonellau o ymchwil a gwybodaeth sy'n bodoli eisoes y dylid eu defnyddio i gynyddu gwybodaeth am TGCh o ran agendâu datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a dwyieithrwydd?
- Pa fylchau mewn gwybodaeth y mae angen eu llenwi?
- Sut y gellir cipio gwybodaeth ac ymchwil yn y ffordd orau?
- Pa rôl y gallai arsyllfa e-Gymru ei chwarae yn y cyd-destun penodol hwn?

## Capasiti

Paragraff 6.35

Yn eich barn pa gamau ychwanegol y dylai Llywodraeth y Cynulliad

eu cymryd i ddefnyddio TGCh yn effeithiol mewn polisi ar?

- Gwasanaethau llywodraeth leol?
- Addysg, dysgu gydol oes a sgiliau?
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol?
- Diwylliant, yr iaith Gymraeg a Chwaraeon?
- Cyfiawnder cymdeithasol, cynhwysiant cymdeithasol, adfywio cymunedau?
- Yr amgylchedd, cefn gwlad a chynllunio?
- Menter, arloesi a rhwydweithiau?

Yn eich barn pa faes(feysydd) sy’n cael y flaenoriaeth uchaf? Pam?

Paragraff 6.40

- Pa flaenoriaethau a nodwyd gennych ar gyfer defnyddio TGCh mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?
- Pa gryfderau sydd gennym a all hyrwyddo datblygu capasiti polisi TGCh cyson?
- Sut y gallwn sicrhau’r cydbwysedd cywir rhwng cydlyniad a chydgysylltiad, a chreadigrwydd ac arloesi?
- Beth ddylai’r cydbwysedd rhwng gweithredu cenedlaethol a lleol fod?
- Pa ymyriadau cenedlaethol y mae angen eu gwneud i hyrwyddo gweithredu lleol?
- Sut y gallwn sicrhau bod gan wneuthurwyr penderfyniadau allweddol wybodaeth a chyngor cadarn am y cyfleoedd a’r heriau y mae TGCh yn eu cynnig i’w sefydliadau ac y gallant ddefnyddio’r rhain?
- Beth arall sydd angen ei wneud i sicrhau bod gan wasanaethau cyhoeddus weithlu a all ddefnyddio TGCh wrth lunio a rhedeg gwasanaethau cyhoeddus?
- Pa arfer da y gallwn adeiladu arno wrth nodi ffyrdd effeithiol o fesur cynnydd?

Paragraff 6.51

- Pa flaenoriaethau ychwanegol (at y rhai a nodwyd eisoes yn Cymru: Economi sy’n Ffynnu) a allai fod o ran defnyddio TGCh i hyrwyddo twf economaidd?
- Pa gyfleoedd ychwanegol a allai fod yng Nghymru i hyrwyddo menter
- a gwaith arloesi blaenllaw ym maes TGCh?

Paragraff 6.55

- Pa gamau gweithredu ychwanegol a all helpu i sicrhau y grymusir dinasyddion â’r sgiliau a’r hyder i ddefnyddio TGCh pryd, ble a sut y dewisant wneud hynny?

## Arloesi

Paragraff 6.58

- Pa arfer llwyddiannus i hyrwyddo arloesi ym maes TGCh y gallwn adeiladu arno?
- Beth yw’r prif heriau a wynebir gan fusnesau sydd am arloesi â TGCh yng Nghymru, a sut y gellid mynd i’r afael â hwy?
- Pa faterion eiddo deallusol y mae’n rhaid eu cymryd i ystyriaeth?
- Paragraff 6.64
- Yn eich barn chi ble gallai datblygiadau arloesol TGCh a allai gael effaith fawr ddwyn y manteision mwyaf i wasanaethau cyhoeddus?
- Pa gryfderau a strwythurau sydd gennym eisoes a allai ategu ymagwedd?
- Ym mha ffyrdd eraill y gellid manteisio orau ar gyfleoedd i’r sector preifat gysylltu â’r sector cyhoeddus ynglyn â gwaith arloesi ym maes TGCh?
- Pa oblygiadau eraill y gallai fod angen eu hystyried wrth ymchwilio i’r ymagwedd hon?